

# Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych

Venue Cymru, Llandudno

Dydd Mercher, 12 Rhagfyr 2018

9.30 am

AELODAU STATUDOL	
<p><b>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</b> Y Cyngorydd Gareth Jones (Arweinydd y Cyngor)</p> <p>Iwan Davies (Prif Weithredwr)</p>	<p><b>Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr</b> Bethan Jones (Cyfarwyddwr Ardal)</p> <p>Gary Doherty (Prif Weithredwr)</p> <p><b>Cyfoeth Naturiol Cymru</b> Siân Williams (Pennaeth Gweithrediadau ar gyfer y Gogledd)</p> <p><b>Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru</b> Simon Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr)</p>
<p><b>Cyngor Sir Ddinbych</b> Y Cyngorydd Hugh Evans (Arweinydd y Cyngor)</p> <p>Judith Greenhalgh (Prif Weithredwr)</p>	

CYFRANOGWYR A WAHODDWDYD	
<p><b>Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy</b> Wendy Jones (Prif Swyddog)</p> <p><b>Cwmni Adsefydlu Cymunedau Cymru</b> Judith Magaw (Pennaeth Uned Darparu Lleol Gogledd Cymru)</p> <p><b>Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych</b> Helen Wilkinson (Prif Weithredwr)</p> <p><b>Iechyd Cyhoeddus Cymru</b> Teresa Owen (Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus)</p>	<p><b>Heddlu Gogledd Cymru</b> Neil Harrison (Uwcharolygydd)</p> <p><b>Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol</b> Andy Jones (Prif Weithredwr Cynorthwyol)</p> <p><b>Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru</b> Sioned Rees (Pennaeth Cynnydd a Chefnogaeth Mesurau Arbennig)</p> <p><b>Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru</b> Stephen Hughes (Prif Weithredwr)</p>

---

Hannah Edwards, Swyddog Datblygu BGC

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU

01492 574059 [hannah.edwards@conwy.gov.uk](mailto:hannah.edwards@conwy.gov.uk)

---

# AGENDA

---

**1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

**2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 5 - 13)

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2018 (copi ynghlwm).

**3 MATERION YN CODI** (Tudalennau 14 - 18)

- a. Y wybodaeth ddiweddaraf am drefniadau cydgraffu y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus
- b. Gweithdy byrddau iechyd y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus conwy a sir ddinbych – amlinelliad o'r sesiwn

9:30am – 9:40am

**4 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM OBLYGIADAU BREXIT A CHYLLID YR UE**  
(Tudalennau 19 - 20)

I dderbyn cyflwyniad ar y diweddariad Brexit a goblygiadau cyllid yr UE.

9.40am – 10.10am

**5 Y WYBODAETH DDIWERDDARAF AM GYNNYDD BLAENORIAETHAU'R BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS** (Tudalennau 21 - 42)

- I. **Pobl** – Lles meddyliol (Sian Williams)
- II. **Cymuned** – Grym cymunedol (Judith Greenhalgh)
- III. **Lle** – Gwydnwch amgylcheddol (Teresa Owen)

10:10am – 11:00am

**6 CYNNIG NEWID HINSAWDD**

I dderbyn adroddiad llafar ar gynnig rhanbarthol ar newid yn yr hinsawdd.

11:00 am – 11:15am

**7 CYNGOR CONWY - Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AR Y CYNLLUN CORFFORAETHOL**

I dderbyn cyflwyniad ar gynllun corfforaethol Cyngor Conwy

11:15am – 11:30am

**8 RHAN 9 PAPUR BWRDD LLYWODRAETHU - YMATEB O GYFARFOD GRŴP Y PRIF WEITHREDWR**

I dderbyn adroddiad ar Rhan 9 papur Bwrdd Llywodraethu ac ymateb o gyfarfod grŵp y prif weithredwr

11:30am – 11:45am

**9 80 O NEWIDIADAU SYML - ADRODDIAD GAN Y COMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL** (Tudalennau 43 - 53)

I dderbyn adroddiad ar 80 o Newidiadau Syml – Adroddiad gan y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

11:45am – 11.55am

**GYFRINACHOL**

*GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD*

*Bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem ganlynol o fusnes.*

**10 DATBLYGU COFRESTR RISG Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS A HERIAU ARWEINYDDIAETH** (Tudalennau 54 - 57)

I dderbyn adroddiad cyfrincachol ar gofrestr risg datblygu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a heriau arweinyddiaeth (copi ynghlwm)

11:55am – 12:10pm

**11 AMDDIFFYNFEYDD MÔR A PHERYGL O LIFOGYDD HEN GOLWYN**

I Derbyn cyflwyniad cyfrinachol ar amddiffynfeydd môr Hen Golwyn a pherygl llifogydd.

12:10pm – 12.25pm

**12 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL** (Tudalennau 58 - 60)

Bydd y Cadeirydd yn arwain ar yr eitem hon.

12:25pm – 12:30pm

# Agenda Item 2

## **BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH**

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU, ddydd Mawrth, 18 Medi 2018 am 9.30 am.

### **YN BRESENNOL**

Bethan Jones, (Cadeirydd) - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr  
Y Cynghorydd Gareth Jones – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill (yn lle Hugh Evans) - Cyngor Sir Ddinbych  
Dr Evan Moore - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr  
Iwan Davies – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Judith Greenhalgh – Cyngor Sir Ddinbych  
Siân Williams – Cyfoeth Naturiol Cymru  
Simon Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr)  
Helen Wilkinson – Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych  
Yr Uwcharolygydd Siân Beck – Heddlu Gogledd Cymru  
Yr Uwcharolygydd Neil Harrison– Heddlu Gogledd Cymru  
John Humphries (yn lle Sioned Rees) – Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru  
Wendy Jones – Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy

### **SWYDDOGION**

Nicola Kneale - Rheolwr Cynllunio Strategol (Cyngor Sir Ddinbych)  
Fran Lewis - Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol (CBS Conwy)  
Megan Vickery – Swyddog Ymgysylltu (BIPBC Canolog)  
Angela Loftus – Rheolwr Cynllunio a Gwarchod Y Cyhoedd (Cyngor Sir Ddinbych)  
James Harland - (Rheolwr Polisi Cynllunio Strategol) (CBS Conwy)  
Shân Morris – Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru)  
Stephanie Jones – Gweinyddwr Pwyllgorau (Cyngor Sir Ddinbych)

#### **1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Andy Jones (Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol)  
Gary Doherty - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr  
Sioned Rees – Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru  
Teresa Owen – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Cynrychiolydd Iechyd Cyhoeddus Cymru)  
Y Cynghorydd Hugh Evans – Aelod Arweiniol Cyngor Sir Ddinbych

#### **2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2018 i'w cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2018.

### 3 MATERION YN CODI

#### a. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Tynnwyd sylw'r aelodau at y ffaith bod y llythyr atodedig wedi gofyn am adborth aelodau o ran rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cadarnhawyd bod adolygiad o Fwrdd Rhan 9 wedi'i gynnal a bod adroddiad wedi'i drefnu ar gyfer cyfarfod nesaf y Prif Weithredwr.

Yn dilyn trafodaethau daeth y pwyllgor i'r casgliad i ohirio ymateb i lythyr Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru nes bod gwybodaeth o'r cyfarfod Grŵp Prif Weithredwr wedi'i derbyn.

**PENDERFYNWYD**, yn dilyn y cyfarfod Grŵp Prif Weithredwr i drafod adolygiad Rhan 9, aelodau i drafod y canlyniadau ac ymateb i lythyr Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

#### b. Diweddariad Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Cadarnhawyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych wedi derbyn ac archwilio'r cynnig am Gydbwyllgor Craffu. Amlygwyd mai cam nesaf y datblygiad oedd derbyn cymeradwyaeth ffurfiol gan Gyngor Llawn Conwy a Chyngor Llawn Sir Ddinbych. Yn dilyn y penderfyniad hwnnw, byddai'r materion ffurfiol o greu cydbwyllgor yn dechrau. Roedd disgwyl, pe bai'r trefniadau cyd-graffu yn cael eu cymeradwyo, y byddai'r pwyllgor yn cwrdd am y tro cyntaf yn y flwyddyn ariannol newydd.

#### c. Dyddiad ar gyfer y Dyddiadur – Sesiwn Datblygu 'Byrddau Iechyd'

Rhoddodd Nicola Kneale (Cyngor Sir Ddinbych) wybod i'r aelodau mai'r dyddiad a gadarnhawyd ar gyfer gweithdy Academi Cymru oedd prynhawn dydd Llun, 28 Ionawr 2019.

Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau ymgynghori â swyddogion a pharatoi barn a chwestiynau cyn y gweithdy.

### 4 ADRODDIAD 'FUTURES FOR WALES'

Cyflwynodd Fran Lewis - Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol (CBS Conwy), yr adroddiad ar 'Futures for Wales'.

Hysbyswyd yr aelodau bod yr adroddiad wedi'i gyhoeddi o'r blaen ac wedi cynnwys 14 argymhelliad a oedd wedi'u hanelu at y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd yr adroddiad cryno yn cynnwys y cynllun hirdymor ar gyfer Cymru. Archwiliodd yr aelodau'r crynodeb gweithredol yn fanwl.

Eglurodd y Cadeirydd mai pwrpas yr adroddiad oedd hysbysu'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o waith a fydd yn siapio Cymru yn y dyfodol. Mae'r sefyllfa bresennol yn ei gwneud yn anodd ystyried dyheadau'r dyfodol.

Roedd aelodau'n ddiolchgar iawn o'r adroddiad ac o'r farn bod gwybodaeth blaengynllunio yn bwysig. Pryder a fynegwyd gan yr aelodau oedd nad oedd enghreifftiau o'r hyn y gallai ddigwydd yn y dyfodol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad os yw rhai agweddau'n newid. Teimlwyd y byddai hyn yn bwysig er mwyn cael dealltwriaeth gynhwysfawr.

Dywedodd Helen Wilkinson Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych y gallai sawl ffactor newid a dylanwadu ar y dyfodol a bod angen ystyried y ffactorau hyn a'u hymchwilio ymhellach. Gwirfoddolodd Helen Wilkinson, os oedd yr aelodau'n gytûn, i wneud gwaith ar gynllunio sefyllfaoedd ar gyfer y dyfodol ac adrodd ei chanfyddiadau yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i Helen Wilkinson am y cynnig a chytunodd yr aelodau i'r gwaith arfaethedig ar gynllunio sefyllfaoedd ar gyfer y dyfodol.

#### **PENDERFYNWYD**

- i. y dylid derbyn y diweddariad a nodi'r cynnwys.*
- ii. cynnal gwaith pellach ar gynllunio sefyllfaoedd ar gyfer y dyfodol ac adrodd yn ôl mewn cyfarfod yn y dyfodol.*

## **5 DIWEDDARIAD AR GYNNYDD BLAENORIAETHAU'R BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS**

Darparwyd diweddariad ar gynnydd y blaenoriaethau fel a ganlyn –

### **i. Pobl – Lles Meddyliol**

Rhoddodd Siân Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru, wybod i'r pwyllgor y byddai diweddariad, mewn perthynas â gweithdy sydd i ddod, yn cael ei roi yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Eglurwyd i aelodau bod heriau wedi codi wrth gysylltu ag asiantaethau ehangach am gymorth i gydlynu'r gweithdy.

### **ii. Cymuned – Grym Cymunedol**

Rhoddodd Nicola Kneale (Cyngor Sir Ddinbych) wybod i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am y broses a ddilynwyd i ddatblygu'r camau nesaf yn y flaenoriaeth Grym Cymunedol. Cynhaliwyd gweithdy ym mis Mehefin gan Gyngor Sir Ddinbych gyda chefnogaeth gan Wasanaethau Gwirfoddol yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Tywyswyd aelodau drwy adroddiad ac atodiadau (a ddosbarthwyd yn flaenorol) a chyfeiriwyd yn benodol at y 3 argymhelliad a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad

Ychwanegodd Judith Greenhalgh (Cyngor Sir Ddinbych) y byddai'r gwaith hwn yn ychwanegu gwerth at waith blaenoriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus heb ddyblygu unrhyw waith sydd wedi'i gwblhau.

Trafododd yr aelodau'r effaith o 'ragnodi cymdeithasol' yn fanwl, a theimlwyd y byddai angen gwell dealltwriaeth o waith partneriaid ehangach yn y maes hwn i asesu sut y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ychwanegu gwerth a chynnig cefnogaeth yn y maes hwn. Gofynnodd y Cadeirydd bod gwaith pellach yn cael ei wneud i gael trosolwg o ragnodi cymdeithasol yn y rhanbarth a nodi unrhyw drefniad llywodraethu sydd ar waith.

Cytunwyd gan aelodau bod llawer o waith wedi'i wneud ar Rymuso'r Gymuned. Diolchwyd i Nicola Kneale a Judith Greenhalgh (Cyngor Sir Ddinbych) am yr wybodaeth fanwl a ddarparwyd. Cytunwyd bod angen gwneud gwaith ac ymchwil pellach.

### iii. **Lle – Gwydnwch Amgylcheddol**

Rhoddodd Fran Lewis (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) wybod i'r aelodau bod gweithdy wedi'i gynnal yn amlygu'r camau gweithredu arfaethedig ar gyfer darparu Gwydnwch Amgylcheddol. Arwain aelodau drwy Gynllun Cyflawni 2018/19 a'r syniadau a'r camau gweithredu a awgrymir. Daeth nifer o bobl i'r gweithdy ac fe gafwyd cyfraniadau gwerthfawr iawn. Mae angen gwneud gwaith pellach i ddatblygu perthynas waith gadarn gyda sefydliadau. Cadarnhaodd Fran Lewis bod angen gwneud gwaith ac ymchwil pellach a bod angen cyflwyno mwy o wybodaeth i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn amlygu'r mesurau cyflawniad.

Trafododd yr aelodau yr angen i lobio'r pryderon a godwyd i Lywodraeth Cymru ac aelodau lleol o'r Senedd i amlygu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Codwyd pryderon ynghylch amddiffynfa fôr ac isadeiledd, yn benodol o ran Hen Golwyn yn Sir Conwy. Cadarnhaodd y Cadeirydd bod angen i'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth ymchwilio i bryderon o ran isadeiledd a chwblhau asesiad risg er mwyn canatau i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus drafod.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl swyddogion am eu gwaith hyd yma ar y blaenoriaethau a'r wybodaeth a ddarparwyd.

***PENDERFYNWYD*** nodi cynnydd y blaenoriaethau a darparu gwybodaeth gefndirol a gwybodaeth bellach ar

- I. Ragnodi cymdeithasol - cael trosolwg o ragnodi cymdeithasol yn y rhanbarth a nodi unrhyw drefniad llywodraethu sydd ar waith.*
- II. Cefndir i'r 3 argymhelliad Grymuso Cymunedol*
- III. Gwydnwch Amgylcheddol – cael mwy o wybodaeth ar yr amddiffynfeydd môr yn Hen Golwyn a chysylltu â'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth.*

Ar y pwynt hwn cytunodd yr aelodau i newid trefn yr adroddiadau er mwyn caniatáu ar gyfer siaradwyr gwadd.

## **6 TROSOLWG O GYNLLUNIAU DATBLYGU LLEOL AR GYFER CONWY A SIR DDINBYCH**

Cyflwynodd James Harland (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) ac Angela Loftus (Cyngor Sir Ddinbych) y wybodaeth ddiweddaraf ar Gynlluniau Datblygu Lleol Conwy a Sir Ddinbych.

Eglurwyd i aelodau bod gan Conwy a Sir Ddinbych ofyniad statudol i gael cynllun datblygu lleol. Roedd y ddau Gyngor ar y camau cyntaf o'u datblygu. Eglurodd James Harland y byddai cam cyntaf Conwy yn cynnwys ymgynghoriad tua diwedd 2018 i nodi unrhyw fater a pharatoi ar gyfer datblygiad pellach. Roedd angen i'r weledigaeth a'r amcanion fod yn unol â gofynion a pholisïau. Adleisiodd Angela Loftus yr uchod, gan bwysleisio proses hir a hynod reoledig y Cynllun Datblygu Lleol. Hysbyswyd yr aelodau bod grŵp Cynllunio Strategol wedi'i sefydlu yn Sir Ddinbych i fonitro gwaith.

Roedd Conwy a Sir Ddinbych wedi gofyn am dystiolaeth o safleoedd posibl i'w datblygu gan y cyhoedd. Roedd gwaith i hyrwyddo'r cais hwn wedi bod yn mynd rhagddo.

Cadarnhaodd James ac Angela y byddent yn parhau i hysbysu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o ran y datblygiadau drwy gydol y broses.

Codwyd sawl mater yn ystod y drafodaeth, gan gynnwys -

- Bydd blaenoriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys gofal dementia yn y gymuned – cadarnhawyd y byddai prosiectau cymunedol a phrosiectau ar gyfer pobl hŷn yn cael eu sefydlu a'u cynnwys yn y polisi cynllunio.
- Adwerthwyr bwyd brys - cadarnhaodd swyddogion bod canllaw cynllunio atodol wedi darparu gwybodaeth ar newid dosbarthiadau ar gyfer adwerthwyr bwyd. Bu'n anodd ei reoli gan fod newidiadau i ganiatâd cynllunio wedi'i gwneud yn haws i roi caniatâd.
- Bodelwyddan – Cadarnhawyd bod y safle o fewn y Cynllun Datblygu Lleol a bod caniatâd cynllunio wedi'i roi. Roedd y safle wedi bod yn gysylltiedig â'r Cynnig Twf ac roedd monitro wedi parhau.
- Meddygfeydd – cadarnhawyd eu bod yn cael traferth cael gwybodaeth ar Feddygfeydd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu hamser ac am ateb y pryderon a godwyd gan aelodau. Cytunwyd y byddai diweddariad pellach yn cael ei roi ar adeg ddiweddarach o'u datblygu.

### **PENDERFYNWYD**

- i. bod aelodau'n derbyn ac yn nodi'r diweddariad.*
- ii. bod amserlen y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei dosbarthu i Aelodau.*



- iii. *bod swyddogion y Cynllun Datblygu Lleol yn cysylltu â'r Cadeirydd ynglŷn â gwybodaeth ar Feddygfeydd.*

Ar y pwynt hwn (11.30 a.m.) cafwyd egwyl o 15 munud.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.45 a.m.

## **7 YMGORFFORI BLAENORIAETHAU/ GWAITH Y BGC MEWN SEFYDLIADAU AELOD**

Gofynnodd Fran Lewis (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) i aelodau gynorthwyo â'r gwaith o sefydlu blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o fewn sefydliadau trydydd parti. Roedd cefnogi gwaith gan swyddogion ar y blaenoriaethau i adrodd yn ôl i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn allweddol.

Adleisiodd y Cadeirydd yr angen i bwysleisio blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyda swyddogion. Tynnwyd sylw at y ffaith mai cyfrifoldeb aelodau oedd adrodd yn ôl i swyddogion arbenigol ar weithredoedd pwyllgor y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'w sefydlu o fewn moeseg gwaith dyddiol.

***PENDERFYNWYD*** *bod aelodau'n derbyn ac yn nodi'r diweddariad.*

## **8 CYFLEOEDD CYLLIDO**

Cyflwynodd y Cadeirydd ddiweddariad ar lafar ar gyfleodd cyllid ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Atgoffwyd aelodau o'r drafodaeth flaenorol a gafwyd yn ystod y cyfarfod diwethaf ym mis Mehefin. Casglwyd y gwaith ymchwil i'r cyllid sydd ar gael tra bod gwaith yn parhau i gael ei archwilio.

Cadarnhaodd y Cadeirydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi'i gynnwys mewn cynllun peilot o gyllid hyblyg. Teimlwyd ei bod yn bwysig i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus dderbyn gwybodaeth o ran cynnydd y cynllun peilot.

Roedd trafodaethau â Llywodraeth Cymru o ran anhawster i sicrhau cyllid wedi parhau. Cytunwyd bod rhaid i'r gwaith ar flaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fod yn gost- effeithiol a bod rhaid darparu tystiolaeth i Lywodraeth Cymru o'r anawsterau a wynebwyd.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cofnodi'r pryderon cyllid a'u hadrodd yn ôl i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddangos tystiolaeth o'r canfyddiadau i Lywodraeth Cymru. Gofynnodd yr aelodau a fyddai modd dosbarthu'r gwaith a oedd wedi'i gwblhau hyd yma ar y cyllid sydd ar gael ymhlith yr aelodau.*

## **9 CYNLLUN IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL**

Fe wnaeth y Cadeirydd dywys yr aelodau drwy gyflwyniad o'r enw "Cymru Iachach". Dangosodd y cyflwyniad yr uchelgais i gyfuno gwasanaethu iechyd a gofal cymdeithasol. I ddiwallu anghenion unigolion mewn modd iach.

Roedd rhai o'r pwyntiau allweddol a amlygwyd i aelodau yn cynnwys:

- Rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Adolygiad o'r trefniadau llywodraethu
- Cronfa Drawsnewid £100m y gall y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ei defnyddio i wneud cais am gyllid.

Pwysleisiodd y Cadeirydd yr angen i graffu ar flaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i arddangos yr angen am gyllid i greu achos busnes i anfon ymlaen wrth wneud cais am gyllid ychwanegol.

Bydd clystyrau o sefydliadau o fewn y gymuned yn cydweithio'n agosach â'i gilydd i gefnogi a darparu gwasanaeth gwell i unigolion. Pwysleisiodd y Cadeirydd bod nifer o glystyrau yn weithredol o fewn Conwy a Sir Ddinbych ar hyn o bryd, byddai'n rhaid gwneud gwaith i weithio'n agosach yn y dyfodol.

Codwyd sawl cwestiwn mewn perthynas â'r gronfa drawsnewid, gan gynnwys sut fyddai'r gronfa yn effeithio ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'i flaenoriaethau. Pwysleisiodd y Cadeirydd wrth yr aelodau bod angen monitro datblygiad y cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Diolchodd yr aelodau i'r Cadeirydd am y cyflwyniad a'r eglurhad manwl. Mynegwyd pryder gan yr aelodau o ran lefel yr adnoddau a staff o fewn Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Daethpwyd i'r casgliad y byddai trawsnewid yn golygu llawer iawn o waith a byddai'n rhaid iddo fod yn gadarn. Cytunwyd y byddai cyllid yng Nghymru yn gadarnhaol ac yn symud gwasanaethau yn eu blaenau yn sylweddol. Cytunwyd y byddai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn monitro ac yn adrodd yn ôl ar ddatblygiadau sylweddol i aelodau.

***PENDERFYNWYD*** y dylid derbyn, cofnodi a dosbarthu'r cyflwyniad a'r wybodaeth i aelodau. Dylai unrhyw ddatblygiad gael ei gyflwyno yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.

## **10 BLAENORIAETHAU INETRIM**

### **a. Y 1000 diwrnod cyntaf**

Dim diweddariad ar hyn o bryd.

### **b. Cyfathrebu**

Rhoddodd Iwan Davies (CBSC) y wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am y gwaith a oedd wedi'i wneud hyd yma o ran cyfathrebu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'i waith.

Codwyd y pwyntiau canlynol -

- Mae cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus bellach yn agored i'r cyhoedd (ac eithrio eitemau ar y rhaglen sydd wedi'u heithrio).
- Caiff crynodeb o gyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei ddsbarthu ar ffurf newyddlen i bob sefydliad.
- Caiff cofnodion eu dosbarthu i bob aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn iddynt eu trafod o fewn eu sefydliadau.
- Caiff negeseuon cyfryngau cymdeithasol rheolaidd eu trefnu ar gyfrifon Facebook a Twitter Sgwrs y Sir. Mae'r cyfrifon hefyd yn rhannu negeseuon sefydliadol perthnasol
- Mae'r gallu i weithio yn adeiladau ein gilydd bellach yn bosibl oherwydd Crwydro (yn amodol ar ddiogelwch).
- Nid oes unrhyw ddulliau ar y cyd pellach ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned wedi'u datblygu ers datblygiad cynllun llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Mae partneriaid yn agored i'r syniad o ganiatáu i staff o sefydliadau partner rannu desgiau o'u hadeiladau. Fodd bynnag, gwneir hyn ar sail achlysurol neu ar sail pob achos unigol.
- Nid yw'r rhan fwyaf o bartneriaid mewn sefyllfa i gynnig mynediad agored ar hyn o bryd – yn bennaf oherwydd cyfyngiadau gofod.

Daethpwyd i'r casgliad bod y cynnydd a oedd wedi'i wneud o ran cyfathrebu hyd yma yn dderbyniol.

Cytunodd yr aelodau ar yr angen i bwysleisio i aelodau a'r cyhoedd bod cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn agored i'r cyhoedd ac estynnir gwahoddiad i bawb.

Dywedodd Nicola Kneale (Cyngor Sir Ddinbych) wrth y pwyllgor bod gweithdy ar gyfer Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn cael ei gynnig i dynnu sylw at waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hyd yma a sefydlu sut/ lle y gallwn gydweithio yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** bod aelodau'n derbyn ac yn nodi'r diweddariad.

## **11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (a ddsbarthwyd yn flaenorol) i'w hystyried. Cadarnhaodd aelodau'r rhaglen ac adroddiadau a ddisgwyliwyd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Rhagfyr 2018.

- Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Gynnig Twf Gogledd Cymru
- Gwaith ar Flaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Camau dilynol o gyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol a Phapur Bwrdd Llywodraethu Rhan 9 (dyddiad i'w gadarnhau)

- Cyngor Conwy – y Wybodaeth Ddiweddaraf ar y Cynllun Corfforaethol
- Datblygu Cofrestr Risg

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r rhaglen waith.

## **12 UNRHYW FATER ARALL**

Dosbarthwyd adroddiad ar yr Archwiliad Ail-sefydlu Ieuenctid i'r aelodau er gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:25 p.m.

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Cyfarfod y Cyngor Llawn – 18 Hydref 2018:** Cymeradwyo trefniadau cydgraffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

### **468. PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 17 Medi 2018.

**Tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd sylw'r Aelodau at Gofnod 344 (Arolygu a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy ar y Cyd yn y Dyfodol – Cydbwyllgor Craffu er mwyn craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) a Chofnod 346 (Gweithgor Cronfa Ragoriaeth), gan fod gofyn i'r Cyngor gymeradwyo argymhellion y cofnodion hynny.**

O ran argymhelliad (a) Cofnod 346 (y dylid parhau'r Gronfa Ragoriaeth, gyda chyllideb o £29k a bod swyddogion yn edrych a oes ffynonellau ariannu amgen ar gael i'w defnyddio i ariannu'r £29k), credai Aelod (Cynghorydd Brian Cossey) bod y Cyngor, trwy gytuno ar y gyllideb, yn osgoi ymdrin â'r broses gyllidebol. Gan hynny, cynigiwyd y dylid cyfeirio'r gyllideb o £29k i barhau'r Gronfa Ragoriaeth at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau i'w ystyried fel rhan o'r broses gyllidebol gyffredinol.

Mewn ymateb i'r uchod, credai Aelod arall (Cynghorydd Ronnie Hughes) gan fod y Gronfa Ragoriaeth wedi'i ffurfio er lles pobl ifanc yn y Fwrdeistref Sirol sy'n rhagori naill ai ym meysydd chwaraeon, diwylliant neu'r celfyddydau, gyda llawer ohonynt yn cynrychioli Cymru neu Brydain Fawr, y dylai'r Cyngor gytuno â'r argymhelliad er mwyn parhau'r Gronfa, sy'n cynorthwyo teuluoedd i fforddio cefnogaeth i'w plant.

Cynghorodd y Prif Weithredwr y dylid yn dechnegol awgrymu argymhelliad (a) wrth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau. Yr Aelodau fyddai'n penderfynu wedyn p'un a fyddai'r gyllideb yn dal i gael ei chefnogi.

Trafodwyd y materion canlynol:-

- Nodwyd bod Gweithgor y Gronfa Ragoriaeth yn gwneud argymhellion ynglŷn â lefel y cyllid ar gyfer pob cais, yna roedd Aelod y Cabinet dros Addysg, Sgiliau a Chyflogadwyedd yn gwneud penderfyniad.
- Nid oedd y Gronfa ar gael yn Lloegr a dim ond mewn ambell i Gyngor yng Nghymru.
- Mewn perthynas ag ymholiad ynglŷn â pham bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi gwneud yr argymhelliad, dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, er bod Gweithgor y Gronfa Ragoriaeth wedi'i sefydlu ers sawl blwyddyn, roedd angen gwneud trefniadau llywodraethu ffurfiol a'u cynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Gan hynny roedd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi cael cais i adolygu cylch gorchwyl y Gweithgor, gan gynnwys y goblygiadau o ran adnoddau. Ar ôl adolygu gwariant y Gweithgor o un flwyddyn i'r llall, cytunwyd y dylid cyflwyno argymhelliad i barhau â chyllideb o £29k.
- O ran yr uchod, roedd yn bwysig nodi bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi gwneud argymhellion yn y gorffennol a oedd yn ymwneud â gwariant. Roedd gan y

Pwyllgor 16 o aelodau ac roedd y penderfyniad ynglŷn â'r Gronfa Ragoriaeth wedi bod yn unfrydol. Dylid trafod hefyd y Gronfa Ragoriaeth wrth gefn o £30k pe bai'n cael ei chyfeirio at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau.

- Dylai'r Gwasanaethau Datblygu Cymunedol, sy'n gyfrifol am y Gronfa Ragoriaeth, archwilio i farchnata'r Gronfa Ragoriaeth er mwyn ceisio denu nawdd.

**PENDERFYNWYD-**

(a) Gan hynny, cynigiwyd y dylid cyfeirio'r gyllideb o £29k i barhau â'r Gronfa Ragoriaeth at y Pwyllgor Arolygu a Chraffu Cyllid ac Adnoddau i'w ystyried fel rhan o broses gyffredinol y gyllideb.

(b) **Cymeradwyo'r argymhelliad yng nghofnodion 344 a 346 (b) ac (c) o gyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd a gynhaliwyd ar 17 Medi 2018.**

## Cyngor sir ddinbych

### Cyfarfod cyngor llawn – 23 Hydref 2018: Cymeradwyo trefniadau craffu ar y cyd

#### 8 CYD-BWYLLGOR CRAFFU AR GYFER Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad y Cyd-Bwyllgor Craffu ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) (a gylchredwyd yn flaenorol) i hysbysu'r Cyngor ynglŷn â'r trefniadau arfaethedig ar gyfer y dyfodol i graffu gwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.

Barn y BGC ym mis Medi 2017 oedd mai Cyd-Bwyllgor Craffu ffurfiol fyddai fwyaf priodol i graffu bwrdd traws sirol / bwrdeistref sirol strategol fel y BGC yn effeithiol. Cadarnhaodd y BGC ei gefnogaeth ar gyfer Cyd-Bwyllgor Craffu ar 19 Mehefin 2018.

Mae'r Pwyllgorau Craffu yng nghynghorau Conwy a Sir Ddinbych wedi ystyried a chytuno gyda'r sylwadau a gyflwynwyd gan y BGC i sefydlu cyd-bwyllgor ac maent wedi cadarnhau cylch gorchwyl drafft ar gyfer ystyriaeth bellach. Cafodd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd Sir Ddinbych gyfle i gael golwg terfynol ar y cynigion yn y cyfarfod ar 19 Hydref a cadarnhawyd ei fod yn gefnogol o'r cynnig.

O fewn y cylch gorchwyl drafft cynigiwyd i'r Cyd-Bwyllgor Craffu gyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Dylai swyddogaeth y Cadeirydd gael ei ddynodi am gyfnod o ddwy flynedd ac ni ddylid talu cyflog uwch.

Diolchodd y Cynghorydd Alan James i Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd a'r Cydlynnydd Craffu am eu gwaith caled ar y cynnig hwn.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (i) *Bod y Cyngor yn cymeradwyo sefydlu Cyd-Bwyllgor Craffu ffurfiol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i graffu ar waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.*
- (ii) *Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r cylch gorchwyl drafft a'r rheolau gweithredu ar gyfer y Cyd-Bwyllgor Craffu.*
- (iii) *Cytunodd y Cyngor na ddylai swydd Cadeirydd y Cyd-Bwyllgor Craffu fod yn gymwys am dâl cyflog uwch.*



## **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych**

*Gweithdai Byrddau Iechyd*

**28 Ionawr 2019**

13:30	<i>Croeso a Chyflwyniadau</i>
	<ul style="list-style-type: none"><li>• <b>Egwyddorion Dysgu</b></li><li>• <b>Dyletswydd Lles ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</b></li><li>• <b>Heriau unigryw i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</b></li></ul>
	<ul style="list-style-type: none"><li>• <b>Beth mae Bwrdd Partneriaeth iach yn ei wneud?</b></li><li>• <b>Y realiti i'r rhan fwyaf o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</b></li><li>• <b>Beth ydych yn ei weld am eich Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus?</b></li></ul>
2:45	<i>Egwyl</i>
	<ul style="list-style-type: none"><li>• <b>Perthynas â Chanlyniadau</b></li><li>• <b>Sut i wella Byrddau Partneriaeth</b></li><li>• <b>Rhowch sgôr i'ch Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus</b></li><li>• <b>Rhestr wirio o gamau gweithredu ymarferol</b></li><li>• </li></ul>
	<ul style="list-style-type: none"><li>• <b>Adolygiad a Chamau Nesaf</b></li><li>• </li></ul>
16:30	<i>Diwedd</i>





# Brexit on a page

## Investment

Increased cost of capital, loss of EU funding, loss of access to EIB, opportunity to streamline investments

**WG is:** providing £100m additional flexible finance, resisting economically damaging options, demanding full replacement to EU funds, pressing for ongoing links to EIB

## Legislation

Need to replace all EU law, provide legal certainty **WG has:** secured changes to UKG's EU (Withdrawal) Bill that protect devolution. The changes mean laws + policy areas already devolved remain devolved.

## Enterprise & entrepreneurship

Potential new barriers to trade, supply chain disruption, risk of businesses leaving, reduced attractiveness for inward investment, Ireland/UK border, customs impact on ports

**WG is:** pressing for full and unfettered access to Single Market and membership of a Customs Union, growing trade policy expertise, supporting exporters, promoting Welsh business interests with UKG

## Innovation

Loss of access to EU R&D programmes, planning delay and disinvestment risks for innovating firms

**WG is:** pressing for continuing access to EU R&D programmes after Brexit

## Competition policy

Need to replace EU Commission role in mergers and State aid, new public procurement rules, risks of disruption to UK internal market and impact on devolution

**WG is:** pressing for at least current levels of flexibility, seeking to influence new UK competition regulator

## Skills and labour market

Potential restrictions on migration, loss of skilled and unskilled EU workers, loss of EU funding, barriers for Welsh people working in EU

**WG is:** pressing for post-Brexit migration policy that supports Welsh economy, proper enforcement of labour standards, demanding full replacement funding, ongoing mutual recognition of qualifications

## Health and Social services

Potential loss of EU workers and reciprocal healthcare with EU, returning expats, loss of EU funding

**WG is:** working with UKG on continued access to EU services and programmes, considering workforce impacts

## Preparedness

Need to plan for operational readiness for April 2019, and after a transition period

**WG is:** announced first projects to benefit from £50m transition fund, increasing resources for preparedness programmes, need for more info from UK Gov, liaising with Whitehall depts

## Negotiations with EU

Exit deal, transition arrangements, future economic and security partnerships will have profound impact on Wales

**WG has:** secured participation in shaping UK negotiating position and discussions with EU

## Consumer policy

General inflation and risk of tariffs and other changes increasing prices, changes to consumer protection legislation

**WG is:** pressing for an exit that minimises impact on consumers

## Education

Threat to mutual recognition of qualifications, loss of skilled EU workers, loss of Erasmus+

**WG is:** seeking ongoing membership of Erasmus+, promoting fair movement policy

## Energy, Planning and Rural Affairs

Loss of CAP and CFP, need to replace EU environmental regulations and functions

**WG is:** demanding full replacement funding and high regulatory standards, pressing for transition period, preparing for post EU systems

## Local government

Loss of EU funding, change to LG delivered regulations, return of expats, fewer immigrants, customs impacts at ports

**WG is:** demanding full replacement funding, continuity of regulations, pressing for local involvement in ports and other discussions

## Constitution

Leaving EU means UK administrations require strengthened decision making structures **WG is:** promoting ideas for Council of Ministers as part of reforms of intergovernmental relations. Set out proposals for new ways for nations of to agree common approaches where needed

## Public finances

Risks reduced tax revenues and cuts to public spending, loss of EU funding **WG is:** demanding full replacement funding, pressing for business focused Brexit which would minimise public finance impact and end to failed austerity policies

## Equality and social cohesion

Loss of EU equality regulation and Charter of Fundamental Rights, highly divided public opinion, some reported hate crime **WG is:** pressing for UK adoption of Charter, seeking equality protections in UK/Welsh law, no hard Irish border

## Macroeconomic impact

Long run forecasts suggest up to -9 % reduction in Welsh GDP, post referendum exchange rate reduction likely to lead to inflationary pressures

**WG is:** pressing for full and unfettered access to the Single market and participation in a Customs Union which would minimise economic impact

## The Welsh Government's six Brexit priorities

- Continued full and unfettered access to the Single Market and participation in a Customs Union to protect the 60% of Welsh exports that go to the EU and to retain and increase job-creating investment.
- A new migration system that links migration more closely to employment so we can recruit the doctors, nurses, engineers and other workers we need, while protecting employees from exploitation.

- Wales not to lose a penny of funding due to Brexit as promised during the referendum.
- A fundamentally different constitutional relationship between the devolved governments and the UK Government – based on mutual respect. No clawback of devolved powers to Whitehall.
- Maintaining the current social and environmental protections, including workers' rights.
- The vital importance of a transition period to avoid a 'cliff edge'.

# Brexit yn gryno

## Menter ac entrepreneuriaeth

Posibilrwydd o rwystrau newydd rhag masnach, amharu ar y gadwyn gyflenwi, perygl o weld busnesau'n ffoi, llai deniadol ar gyfer mewnffuddsoddi, ffin rhwng Iwerddon a'r DU, effaith tollau ar borthladdoedd

**Ymateb LIC:** pwyso am fynediad llawn a dirwystr at y Farchnad Sengl ac aelodaeth o Undeb Tollau, meithrin arbenigedd polisi masnach, cefnogi allforwyr, hyrwyddo buddiannau busnes Cymru gyda Llywodraeth y DU.

## Buddsoddiad

Costau cyfalaf uwch, colli cyllid yr UE, colli mynediad at Fanc Buddsoddi Ewrop, cyfle i symleiddio buddsoddiadau

**Ymateb LIC:** darparu £100m o gyllid hyblyg ychwanegol, gwrthsefyll opsiynau Brexit sy'n niweiddio yn economaidd, mynnu arian llawn yn lle cyllid yr UE, pwyso am gysylltiad parhaus â Banc Buddsoddi Ewrop

## Arloesi

Colli mynediad at raglenni Ymchwil a Datblygu'r UE, oedi wrth gynllunio a pheryglon dadffuddsoddiad ar gyfer cwmnïau arloesol

**Ymateb LIC:** pwyso am barhau i gael mynediad at raglenni Ymchwil a Datblygu yr UE ar ôl Brexit

## Deddfwriaeth

Angen llenwi bwlch holl gyfraith yr UE, darparu sicrwydd cyfreithiol

**Ymateb LIC:** sicrhau newidiadau i fil Llywodraeth y DU i ymadael â'r UE sy'n diogelu datganoli. Hyn yn golygu y bydd cyfreithiau a meysydd polisi sydd wedi'u datganoli yn parhau i fod felly.

## Sgiliau a'r farchnad lafur

Cyfyngiadau posib ar fudo, colli gweithwyr medrus a heb sgiliau o'r UE, colli cyllid yr UE, rhwystrau i bobl o Gymru sy'n gweithio yn yr UE  
**Ymateb LIC:** pwyso am bolisi mudo ar ôl Brexit a fydd yn cefnogi economi Cymru, gorfodi safonau llafur yn gadarn, mynnu cyllid llawn yn lle'r cyllid sy'n cael ei golli, parhau i gydnabod cymwysterau o'r ddwy ochr

## Polisi ar gystadleuaeth

Angen llenwi rôl Comisiwn yr UE wrth reoli cyfuno cwmnïau a chymorth gwladwriaethol, rheolau caffael cyhoeddus newydd, perygl o amharu ar farchnad fewnol y DU ac effaith ar ddatganoli

**Ymateb LIC:** pwyso am y lefelau presennol o hyblygrwydd o leiaf, ceisio dylanwadu ar reoleiddiwr cystadleuaeth newydd y DU

## Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Perygl o golli gweithwyr yr UE a threfniadau gofal iechyd dwyochrog yn yr UE, pobl a fudodd o'r DU yn dychwelyd, colli cyllid yr UE

**Ymateb LIC:** gweithio gyda Llywodraeth y DU ar barhau i gael mynediad at wasanaethau a rhaglenni'r UE, ystyried effaith ar y gweithlu

## Parodrwydd

Angen cynllunio i fod yn barod i weithredu erbyn mis Ebrill 2019, ac ar ôl cyfnod pontio  
**Ymateb LIC:** sefydlu cronfa bontio £50m, cynyddu adnoddau ar gyfer rhaglenni parodrwydd, angen mwy o wybodaeth gan Lywodraeth y DU, yn trafod ag adrannau Whitehall.

## Llywodraeth Leol

Colli cyllid yr UE, newid i reoliadau llywodraeth leol, pobl a fudodd o'r DU yn dychwelyd, llai o fewnfudwyr, effaith tollau ar borthladdoedd  
**Ymateb LIC:** mynnu cyllid llawn yn lle'r hyn sy'n cael ei golli, parhad rheoliadau, pwyso am gyfranogaeth leol mewn trafodaethau ar borthladdoedd a thrafodaethau eraill

## Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

Colli'r PAC a'r CFP, angen llenwi bwlch rheoliadau a swyddogaethau amgylcheddol yr UE  
**Ymateb LIC:** mynnu cyllid llawn yn lle'r hyn sy'n cael ei golli a safonau rheoleiddio uchel, pwyso am gyfnod pontio, paratoi ar gyfer systemau ar ôl yr UE

## Negodiadau gyda'r UE

Bydd y cytundeb ymadael, trefniadau pontio, partneriaethau economaidd a diogelwch yn y dyfodol oll yn effeithio'n helaeth ar Gymru  
**Ymateb LIC:** wedi sicrhau rhan yn y broses o lunio safbwynt negodi'r DU ac yn y trafodaethau gyda'r UE

## Polisi ar ddefnyddwyr

Chwyddiant cyffredinol a pherygl o dariffau a newidiadau eraill yn cynyddu prisiau, newidiadau i ddeddfwriaeth diogelu defnyddwyr  
**Ymateb LIC:** pwyso am ymadael mewn ffordd sy'n cyfyngu ar yr effaith ar ddefnyddwyr

## Addysg

Bygythiad i'r gydnabyddiaeth ddwyochrog o gymwysterau, colli gweithwyr medrus yr UE, colli Erasmus+  
**Ymateb LIC:** ceisio sicrhau aelodaeth barhaus o Erasmus+, hyrwyddo polisi teg o ran symudiad pobl

Manylion Cyswllt: [BlwchPontioEwropeaidd@llyw.cymru](mailto:BlwchPontioEwropeaidd@llyw.cymru)

Mehefin 2018

## Cydraddoldeb a chydlyniant cymdeithasol

Colli rheoliadau cydraddoldeb yr UE a'r Siarter Hawliau Sylfaenol, barn y cyhoedd yn rhanedig tu hwnt, adroddiadau am droseddau casineb  
**Ymateb LIC:** pwyso ar i'r DU fabwysiadu'r Siarter, ceisio mesurau i ddiogelu cydraddoldeb yng nghyfraith Cymru/y DU, dim ffin galed ag Iwerddon

## Effeithiau macroeconomaidd

Rhagolygon tymor hir yn awgrymu hyd at -9% o ostyngiad i GDP Cymru, gostyngiad cyfradd gyfenwid ar ôl y refferendwm yn debygol o arwain at bwysau chwyddiant  
**Ymateb LIC:** pwyso am fynediad llawn a dirwystr at y Farchnad Sengl a chymryd rhan mewn Undeb Tollau a fyddai'n cyfyngu ar yr effaith economaidd

## Y Cyfansoddiad

Ymadael â'r UE yn golygu bod angen strwythurau cryfach ar weinyddiaethau'r DU i wneud penderfyniadau  
**Ymateb LIC:** hyrwyddo syniadau am Gyngor Gweinidogion fel rhan o'r broses o ddiwygio cysylltiadau rhynglywodraethol. Cynigion ynghylch ffyrdd newydd i wledydd y DU gytuno ar ddulliau cyffredin lle bo angen.

## Cyllid cyhoeddus

Risg o lai o refferendwm treth a thoriadau i wariant cyhoeddus, colli cyllid yr UE  
**Ymateb LIC:** mynnu cyllid llawn yn lle'r hyn sy'n cael ei golli, pwyso am Brexit sy'n canolbwyntio ar fusnesau a fyddai'n effeithio cyn lleied â phosib ar gyllid cyhoeddus a rhoi diwedd ar bolisiau cyni aflwyddiannus

# Chwe blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar Brexit

Parhau i gael mynediad llawn a dirwystr at y Farchnad Sengl a chymryd rhan mewn Undeb Tollau i ddiogelu'r 60% o allforion o Gymru sy'n mynd i'r UE, a chadw a chynyddu buddsoddiad sy'n creu swyddi.

System newydd sy'n cysylltu mudo yn agos â chyflogaeth er mwyn medru recriwtio meddygon, nyrsys, peirianwyr a gweithwyr angenrheidiol eraill, gan amddiffyn gweithwyr rhag unrhyw gamfanteisio.

Sicrhau na fydd Cymru'n colli ceiniog o gyllid yn sgil Brexit, yn unol â'r addewid adeg y refferendwm Perthynas gyfansoddiadol sylfaenol wahanol rhwng y llywodraethau datganoledig a Llywodraeth y DU - ar sail parch o'r ddwy ochr. Sicrhau nad yw Whitehall yn crafangu unrhyw bwerau datganoledig yn ôl. Cynnal y mesurau diogelu cymdeithasol ac amgylcheddol presennol, gan gynnwys hawliau gweithwyr. Pwysigrwydd hanfodol cyfnod pontio er mwyn osgoi syrthio 'dros y dibyn'.



# Conwy and Denbighshire Public Services Board Well-being Delivery Plan 2018 - 2023

Agenda Item 5

Page 20



**People – Supporting Good Mental Well-being for all ages**

Delivery Plan – 2018 / 19

Priority	Year 1 Priorities (2018/19)	Impact
<p><b>People –</b> Supporting Good Mental Well-being for all ages</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Review the potential overlap with and find the opportunities for the Wellbeing Plan and national strategy “Together for Mental Health” to deliver together</li> <li>2. Develop a framework based on the LITs and PSB membership that will keep the Wellbeing Priorities under review and deliver more than the sum of its parts</li> <li>3. Embed the principles that: the action plan will not be about a Clinical Response, but will focus on communities and common understanding of what is required to support good mental wellbeing</li> <li>4. Establish a PSB sub-group which will engage with practitioners, service providers and service users to help draft short, medium and long term of objectives within an action plan to deliver the priorities</li> <li>5. Establish task and finish groups to take forward specific actions agreed by the sub group in the plan</li> </ol>	<p>Common understanding of the issues, opportunities and priorities</p> <p>Exploring ways of working to explore opportunities for the Wellbeing Plan and national strategy “Together for Mental Health” to deliver together developing objectives to deliver the priority</p> <p>Recognition that that the delivery plan is about much more than a clinical issue or clinical response and that wellbeing and resilience are about communities, ways of working and community assets</p> <p>Recognition that there are already a lot of good things going on that we can learn from and that Local Implementation Teams (LITs) and PSBs working together offer the potential to deliver something very powerful</p>

Page 21

**Specific actions in 2018/19 to support year 1 priorities:**

1. Establish and Develop a PSB sub-group to lead this PSB Priority
2. Hold a workshop with practitioners, service users and providers to explore issues and objectives, and help identify the scope of a delivery plan based on the Conwy/Denbs Wellbeing Plan Objective
3. Produce a report from the workshop and take the findings back to PSB sub group to develop and agree “next steps” during 2018/19 and 19/20. Including
  - 3.1 Scoping and establishing a task and finish group on how to develop ways of working with communities
  - 3.2 Scoping and establishing a task and finish group on how best to work with and develop with community assets in relation to improving mental wellbeing
  - 3.3 Identify which aspects of working with people and working with community assets link to the Community Empowerment priority of the Wellbeing Plan.
  - 3.4 Map current services provided to improve mental wellbeing and analyse if there are gaps or overlaps
  - 3.5 Considering the potential to use LITS + others to steer or deliver the action plans
  - 3.6 Agree on a draft work plan that will help deliver the specific actions and outcomes
  - 3.7 Scope a second workshop to test the objectives and work plan

RAG action key	
Action not progressing / areas of concern have been raised	Red



Action progressing and no concerns raised	<b>Amber</b>
Action complete	<b>Green</b>



Achievement Measures <i>Describe what will you deliver in 2018/19?</i>		Lead Officer	Baseline Data (If applicable)	Target date	Achievement Milestones <i>What will be achieved &amp; what difference will be made?</i>	Organisations involved
1	a) Establish and Develop a PSB sub-group to lead this PSB Priority  b) Hold a workshop with practitioners, service users and providers to explore issues and objectives, and help identify the scope of a delivery plan based on the Conwy/Denbs Wellbeing Plan Objective	<b>Justin Hanson</b>	n/a	Nov 19	Group set up, workshop held. Ways of working considered, innovative ideas explored, engagement within the sector undertaken  Common understanding of the issues and some of the potential solutions	<b>All, plus providers and users</b>
<b>Progress Update – December 2018</b>						
Sub-Group met and agreed principles, ways of working and some potential solutions. Group agreed to engage on the priority within the sector to held scope the potential solutions.  Draft report received and PSB sub-group to be set up in January 19						

**Other evidence to demonstrate achievement – Sources of narratives / case studies**

**Notes from meeting, report from workshop**

**Risks to Manage:**

**Expectation from service users and providers following workshop that delivery will follow quickly**

Achievement Measures <i>Describe what will you deliver in 2018/19?</i>		Lead Officer	Baseline Data (If applicable)	Target date	Achievement Milestones <i>What will be achieved &amp; what difference will be made?</i>	Organisations involved
2 Page 23	Produce a report from the workshop and take the findings back to PSB sub group to develop and agree “next steps” during 2018/19 and 19/20.	<b>Sian Williams</b>	n/a	April 2019	<ul style="list-style-type: none"> <li>a) Identify which aspects of working with people and working with community assets link to the Community Empowerment priority of the Wellbeing Plan.</li> <li>b) Map current services provided to improve mental wellbeing and analyse if there are gaps or overlaps</li> <li>c) Considering the potential to use LITS + others to steer or deliver the action plans</li> <li>d) Agree on a draft work plan that will help deliver the specific actions and outcomes</li> <li>e) Scope a second workshop to test the objectives and work plan</li> </ul>	<b>PSB Sub-Group</b>
<b>Progress Update – December 2018</b>						
<b>Draft report received. Sian Williams and Lesley Singleton to discuss this in relation to next steps and the PSB sub group meeting to be held January 2019</b>						

Other evidence to demonstrate achievement – Sources of narratives / case studies
<p><b>Draft Report</b></p> <p><b>Meeting Notes including instructions to sub/ task and finish groups</b></p>

Risks to Manage:

Expectation within the sector

	Achievement Measures <i>Describe what will you deliver in 2018/19?</i>	Lead Officer	Baseline Data (If applicable)	Target date	Achievement Milestones <i>What will be achieved &amp; what difference will be made?</i>	Organisations involved
Page 24 3	<p>3.1 Establish a task and finish group to define the scope of working with people in relation to improving mental wellbeing. Tasks might include:</p> <p>3.2 Establish a task and finish group to define the scope of working with community assets in relation to improving mental wellbeing. Tasks might include:</p> <p>3.3 Use the information gathered from recommendations a), b) and 2b) to map current services</p>	<b>To be decided</b>	<b>report</b>	April 2019	<p>3.1a) How to apply Co-production principles between citizens and organisations in carrying out this work</p> <p>3.1b) How services can support people in their journey of discovery of their own needs and which pathway/services are appropriate to them; and</p> <p>3.1c) Properly identifying citizen or service user assets and needs in this process.</p> <p>3.2a) How to apply Co-production principles between citizens and organisations in carrying out this work;</p> <p>3,2b) How to apply Asset Based Community Development principles in carrying out this work - and build on what was already happening in communities in the area;</p> <p>3.2c) Include other partners in the task and finish group such as representatives from housing;</p> <p>3,2d) Identifying good practice and some of the factors that might inhibit good practice; and</p>	



					- Scope the local development plans for information on community assets.	
--	--	--	--	--	--	--

**Progress Update – December 2018**

This process needs to consider some of the following issues:

- Identifying good practice and understanding why? (as it wasn't possible to do that during the workshop);
- Identifying some of the factors that might inhibit good practice and understanding why? (as it wasn't possible to do that during the workshop);
- Mapping the individual experiences of the on-going services and activities (from initial referral to successful outcome).
- In mapping these services, the Public Service Board needs to ensure that service users aren't only offered what's available - rather than what individuals and communities need.
- This process needs to make sure it is clear which assets are being used and what needs are being met and the availability of any data that supports these outcomes.

Page 25

**Other evidence to demonstrate achievement – Sources of narratives / case studies**

**Not yet available**

**Risks to Manage:**

Conwy & Denbighshire PSB – Cross-referencing from draft well-being plan to approved version

Period	Areas identified in the Well-being Plan for further exploration	Linkages to the original 6 priorities	Actions been progressed
<b>1. People – Supporting good mental well-being for all ages (absorbed original priorities of 1<sup>st</sup> 1000 days, supporting the ageing population and raising resilient and aspirational young people)</b>			
